# ASESIAD O'R EFFAITH AR GLUDIANT

## Cynnig i Ad-drefnu'r Ddarpariaeth Addysg Gatholig yn Sir y Fflint






- **Cau Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony yn Saltney, a fydd yn gorffen gweithredu erbyn 31 Awst 2026**
- **Uno Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant David yn yr Wyddgrug, Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair yn y Fflint ac Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Richard Gwyn yn y Fflint**
- **Byddai'r uno'n golygu y byddai'r ysgolion unigol yn cau erbyn 31 Awst 2026 ac ysgol unedig newydd, Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir 3-18, Cyfrwng Saesneg, gydag enw a rhif ysgol newydd, yn agor ym Medi 2026, yn gweithredu ar y tri o safleoedd presennol**
- **Symud yr ysgol newydd i'r adeiladau newydd o 1 Medi 2029**

**Cyfnod Ymgynghori: Yn dechrau ar 03 Mehefin 2025 ac yn Cau am Hanner Nos ar 18 Gorffennaf 2025**

# A. CYFLWYNIAD

Yn Sir y Fflint mae chwe ysgol wedi eu categoreiddio fel ysgolion Catholig gwirfoddol a gynorthwyir:

- Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony, Saltney.
- Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant David, yr Wyddgrug.
- Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair, y Fflint.
- Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Santes Winefride, Treffynnon.
- Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Yr Hybarch Edward Morgan, Shotton.
- Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Richard Gwyn, y Fflint

Yn dilyn canllawiau rheoleiddio'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 ("*y Cod*"), mae Esgobaeth Gatholig Wrecsam ("*yr Esgobaeth*") a Chyngor Sir y Fflint ("*y Cyngor*") yn dymuno ymgynghori â phawb sydd â diddordeb ynghylch cynnig i ad-drefnu'r ddarpariaeth addysg Gatholig yn Sir y Fflint.

Cynigir:

- Cau Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony yn Saltney, a fydd yn gorffen gweithredu erbyn 31 Awst 2026.
- Uno Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant David yn yr Wyddgrug, Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair yn y Fflint ac Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Richard Gwyn yn y Fflint.
- Byddai'r uno'n golygu y byddai'r ysgolion unigol yn cau erbyn 31 Awst 2026 ac ysgol unedig newydd, Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir 3-18, Cyfrwng Saesneg, gydag enw a rhif ysgol newydd, yn agor ym Medi 2026, yn gweithredu ar y tri o safleoedd presennol.
- Symud yr ysgol newydd i'r adeiladau newydd o 1 Medi 2029.

At ddibenion y ddogfen hon, cyfeirir at yr ysgolion gan ddefnyddio eu henw unigryw byrrach.  Er enghraifft, cyfeirir at Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony, Saltney, fel Sant Anthony.

Mae ysgolion Santes Winefride a'r Hybarch Edward Morgan y tu hwnt i gwmpas y cynnig ac ni effeithir arnynt yn uniongyrchol pe bai'n cael ei weithredu.

Mae'r ddogfen hon yn cefnogi'r ddogfen Ymgynghoriad Statudol y dylai ymgyngoreion ei hystyried i gymryd rhan lawn yn y broses ymgynghori.

https://siryfflint.gov.uk/YmgynghoriadAddysgGatholig

**Mae'r ymgynghoriad hwn yn dechrau ar 03 Mehefin 2025 ac yn cau am Hanner Nos ar 18 Gorffennaf 2025.**

Ffigyrau, ystadegau a deunydd y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon yw'r mwyaf cywir sydd ar gael adeg paratoi a chyhoeddi.

Mae Asesiadau o Effaith yn ddogfennau gwaith a fydd yn cael eu diweddaru yng ngoleuni gwybodaeth ac adborth o'r broses ymgynghori.

## B. PWRPAS YR ASESIAD

Mae Asesiad o'r Effaith ar Gludiant yn nodi'r trefniadau cludiant cyfredol ar gyfer disgyblion sy'n mynd i ysgolion sy'n agored i gynnig i newid trefniant ysgol.

Mae'r asesiad yn dangos y baich ariannol cyfredol ar y Cyngor, a sut allai gweithredu'r cynnig effeithio ar gostau cyffredinol cludiant.

Trafodir hefyd sut all y newid arfaethedig effeithio ar amseroedd siwrnai disgyblion presennol sy'n mynd i'r ysgolion sydd wedi'u heffeithio.

## C. POLISI CLUDIANT

Mae'n ofynnol i'r Cyngor bennu a oes angen iddo ddarparu cludiant i ddisgyblion oed ysgol statudol i hwyluso presenoldeb yn ysgol ddynodedig y disgybl dan sylw. Os yw'r cludiant yn cael ei bennu'n angenrheidiol, yna mae'n rhaid darparu cludiant am ddim.

Mae'r Cyngor yn darparu cludiant am ddim i blant o oedran ysgol gorfodol (h.y. 5-16 oed) fel a ganlyn:

- pan fydd plentyn sy'n derbyn addysg gynradd yn byw dros ddwy filltir o'u hysgol addas agosaf.
- pan fydd plentyn sy'n derbyn addysg uwchradd yn byw dros dair milltir o'u hysgol addas agosaf.

Yn ychwanegol at ei rwymedigaethau statudol, mae'r Cyngor yn darparu cludiant am ddim i ddisgyblion o oedran gorfodol i'r ysgol wirfoddol a gynorthwyir agosaf, lle mae cofrestru ar gyfer yr ysgol ar sail enwad, yn amodol ar y meini prawf pellter.

Gellir gweld y Polisi Cludiant llawn drwy'r ddolen ganlynol:

https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Transport-Application.aspx

## C.1. Amser Siwrnai

Fel rhan o'r ddyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i drefnu trefniadau cludiant i blant fynychu ysgol, ystyrir nad yw trefniadau'n addas os:

- Ydynt yn achosi lefelau afresymol o straen i'r plentyn;
- Ydynt yn cymryd gormod o amser; neu
- Os nad ydynt yn ddiogel.

Mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2014 yn gosod allan polisi teithio i'r ysgol ar gyfer Cymru. Mae'n gosod allan yr hawl i blant ifanc gael cludiant, sy'n golygu ei fod am ddim i blant ysgolion cynradd os ydynt yn byw dwy filltir neu fwy oddi wrth eu hysgol addas agosaf.

Nid yw'r Mesur na'r Canllawiau Statudol (Canllawiau Darpariaeth Statudol Teithio Gan Ddysgwyr a Chanllawiau Gweithredol 2014) yn nodi terfyn amser o ran hyd siwrneiau i'r ysgol. Serch hynny, mae gofyn i awdurdodau lleol asesu anghenion unigol dysgwyr wrth ystyried os yw amser siwrnai'n rhesymol. Dylai asesiad ystyried natur, pwrpas ac amgylchiadau pob siwrnai a dylai ystyried y pethau canlynol:

- Oedran y dysgwr.
- A oes gan y dysgwr unrhyw anabledd neu anawsterau dysgu y dylid eu cymryd i ystyriaeth.

Ardal gartref y dysgwr mewn perthynas ag ysgolion sydd ar gael yn yr ardal.

# D. PROFFIL CLUDIANT

## D.1. Ysgol Gynradd Gatholig St Anthony

O'r 62 disgybl llawn amser sydd wedi'u cofrestru yn Ysgol Anthony ym mis Ionawr 2025, roedd 61 yn mynychu eu hysgol gynradd Gatholig wirfoddol a gynorthwyir, cyfrwng Saesneg agosaf, sy'n cyfateb i 98.39%.

Os yw'r holl ddisgyblion sy'n gymwys am gludiant am ddim i St Anthony yn gwneud cais am y gwasanaeth, cyfanswm y gost flynyddol i'r Cyngor fyddai tua £9,500.

Cyfanswm y gost flynyddol i'r Cyngor ar hyn o bryd yw £0.

O'r 61 disgybl llawn amser sy'n mynd i St Anthony fel eu hysgol gynradd Gatholig wirfoddol a gynorthwyir, cyfrwng Saesneg agosaf, mae 59 yn byw o fewn dwy filltir i'r ysgol.

Y pellter cerdded cyfartalog o gyfeiriad cartref y 62 disgybl i St Anthony yw 0.74 milltir.

## D.2. Ysgol Gynradd Gatholig Dewi Sant

O'r 69 disgybl llawn amser sydd wedi'u cofrestru yn Ysgol Dewi Sant ym mis Ionawr 2025, roedd 55 yn mynychu eu hysgol gynradd Gatholig wirfoddol a gynorthwyir, cyfrwng Saesneg agosaf, sy'n cyfateb i 79.71%.

Os yw'r holl ddisgyblion sy'n gymwys am gludiant am ddim i Ysgol Dewi Sant yn gwneud cais am y gwasanaeth, cyfanswm y gost flynyddol i'r Cyngor fyddai tua £60,000.

Cyfanswm y gost flynyddol i'r Cyngor ar hyn o bryd yw £8,800.

O'r 55 disgybl llawn amser sy'n mynd i Ysgol Dewi Sant fel eu hysgol gynradd Gatholig wirfoddol a gynorthwyir, cyfrwng Saesneg agosaf, mae 35 yn byw o fewn dwy filltir i'r ysgol.

Y pellter cerdded cyfartalog o gyfeiriad cartref y 69 disgybl i Ysgol Dewi Sant yw 2.12 milltir.

## D.3. Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair

O'r 237 disgybl llawn amser sydd wedi'u cofrestru yn Ysgol y Santes Fair ym mis Ionawr 2025, roedd 218 yn mynychu eu hysgol gynradd Gatholig wirfoddol a gynorthwyir, cyfrwng Saesneg agosaf, sy'n cyfateb i 79.71%.

O'r 55 disgybl llawn amser sy'n mynd i Ysgol y Santes Fair fel eu hysgol gynradd Gatholig wirfoddol a gynorthwyir, cyfrwng Saesneg agosaf, mae 208 yn byw o fewn dwy filltir i'r ysgol.

Y pellter cerdded cyfartalog o gyfeiriad cartref y 237 disgybl i Ysgol y Santes Fair yw 1.26 milltir.

## D.4. Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn

Mae pob disgybl sy'n mynychu Ysgol Sant Richard Gwyn yn mynd i'w hysgol uwchradd Gatholig wirfoddol a gynorthwyir, cyfrwng Saesneg agosaf, gan mai dyma'r unig ysgol yn Sir y Fflint.

O'r 783 disgybl llawn amser sy'n mynd i Ysgol Sant Richard Gwyn fel eu hysgol uwchradd Gatholig wirfoddol a gynorthwyir, cyfrwng Saesneg agosaf, mae 290 yn byw o fewn tair milltir i'r ysgol.

Y pellter cerdded cyfartalog o gyfeiriad cartref y 783 disgybl i Ysgol Sant Richard Gwyn yw 3.87 milltir.

# E. EFFEITHIAU POSIBL

Cafodd ei dybio bod rhieni wedi dewis ysgol benodol ar gyfer eu plentyn yn seiliedig ar gategori ysgol.

Mae pob ysgol sydd wedi'u cynnwys yn y cynnig yn ysgol wirfoddol a gynorthwyir cyfrwng Saesneg, sy'n darparu addysg ffydd Gatholig.

At y diben hwnnw, cafodd ei dybio bod y disgyblion sy'n cael eu heffeithio un ai'n aros yn (os yw'n bosibl) neu'n cael eu trosglwyddo i'w (pan mae cau'r ysgol yn cael ei gynnig) hysgol Gatholig wirfoddol a gynorthwyir, cyfrwng Saesneg agosaf.

Os yw'r cynnig yn cael ei weithredu, mae effeithiau posib wedi cael eu hasesu o ran lleoedd yn yr ysgol, costau cludiant ac amseroedd a phellteroedd siwrneiau'r disgyblion.

## E.1. Effaith ar Leoedd Gwag

Ym mis Medi 2024, byddai'r lleoedd gwag yn y tair ysgol gynradd yn cael eu cadw fel a ganlyn:

| Ysgol | Ysgol y Santes Fair rŵan | Santes Gwenffrewi | Ysgol Gynradd Gatholig yr Hybarch Edward Morgan | Cyfanswm |
|---|---:|---:|---:|---:|
| Lleoedd ar gael | 317 | 187 | 281 | 785 |
| Nifer ar y Gofrestr | 232 | 150 | 167 | 549 |
| Lleoedd Gwag | 85 | 37 | 114 | 236 |
| % Lleoedd Gwag | 26.81% | 19.79% | 40.57% | 30.06% |

Tabl 1: Nifer y Llefydd Gwag Cyfredol

Byddai'r ddwy ysgol sy'n weddill (yn y Fflint a Shotton) yn derbyn disgyblion a fyddai'n trosglwyddo o Ysgol Sant Anthony a (safle) St David's.

Ar gyfer y 62 disgybl llawn amser sydd wedi'u cofrestru yn St Anthony ym mis Ionawr 2025, eu hysgol gynradd Gatholig wirfoddol a gynorthwyir, cyfrwng Saesneg agosaf fyddai Ysgol Yr Hybarch Edward Morgan yn Shotton.

Ar gyfer y 69 disgybl llawn amser sydd wedi'u cofrestru yn Ysgol Dewi Sant ym mis Ionawr 2025, gan y byddan nhw'n dod yn rhan o'r ysgol unedig ar 01 Medi 2026, tybir y byddan nhw'n trosglwyddo i'r adeiladau ysgol newydd yn y Fflint mis Medi 2029.

Byddai'r lleoedd gwag arfaethedig yn y tair ysgol gynradd yn cael eu cadw fel a ganlyn:

| Ysgol | Y Fflint Newydd | Santes Gwenffrewi | Ysgol Gynradd Gatholig yr Hybarch Edward Morgan | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Lleoedd ar gael | 315 | 187 | 281 | 783 |
| Nifer ar y Gofrestr | 301 | 150 | 229 | 680 |
| Lleoedd Gwag | 14 | 37 | 52 | 103 |
| % Lleoedd Gwag | 4.44% | 19.79% | 18.51% | 13.15% |

Tabl 2: Lleoedd Gwag Arfaethedig

## E.2. Effaith ar Gostau Cludiant

Os yw pob disgybl St Anthony yn gymwys ar gyfer cludiant am ddim i'w hysgol Gatholig wirfoddol a gynorthwyir, cyfrwng Saesneg agosaf yn gwneud cais am y gwasanaeth, byddai'r gost gyffredinol flynyddol i'r Cyngor tua £55,000.

Yn yr un modd, os yw pob disgybl Ysgol Dewi Sant yn gymwys trosglwyddo i safle'r Fflint, byddai'r gost gyffredinol flynyddol i'r Cyngor tua £157,000.

Ni fyddai'r costau sy'n gysylltiedig ag Ysgol y Santes Fair a Sant Richard Gwyn yn newid, oherwydd y byddai addysg Gatholig gynradd ac uwchradd cyfrwng Saesneg yn parhau i gael ei darparu o'r safle presennol a rennir.

O ganlyniad, byddai'r gost gyffredinol flynyddol i'r Cyngor yn £212,000 ychwanegol.

## E.3. Effaith ar Amser Teithio a Phellter Cerdded

Nid yw unrhyw un o'r 62 disgybl llawn amser sydd wedi cofrestru yn St Anthony ym mis Ionawr 2025, yn byw 2 filltir o'u hysgol gynradd Gatholig wirfoddol a gynorthwyir, cyfrwng Saesneg agosaf petai'r cynnig yn cael ei weithredu.

Y pellter cerdded cyfartalog o gyfeiriadau cartref y 62 disgybl i'w hysgol gynradd Gatholig agosaf fyddai 6.26 milltir.

O'r 69 disgybl llawn amser sydd wedi cofrestru yn Ysgol Dewi Sant ym mis Ionawr 2025, mae 2 yn byw o fewn 2 filltir i safle'r Fflint.

Y pellter cerdded cyfartalog o gyfeiriadau cartref y 69 o ddisgyblion i safle'r Fflint yn 6.34 milltir.

Ni fyddai'r pellter cerdded o gyfeiriadau cartref disgyblion yn Ysgol y Santes Fair a Sant Richard Gwyn yn newid, oherwydd y byddai addysg gynradd ac uwchradd Gatholig cyfrwng Saesneg yn parhau i gael ei darparu o'r safle presennol a rennir.

### E.4. Crynodeb o Effaith

| Ardal a Effeithir | Manylion o'r Effaith |
|---|---|
| % o'r Lleoedd Gwag (Cynradd) | Gostyngiad sylweddol o 30.06% i 13.15% |
| Costau Cludiant | Cynnydd arfaethedig o £212,000 y flwyddyn |
| Pellteroedd Cerdded Cyfartalog | Cynnydd arfaethedig o 1.46 milltir i 6.30 milltir |
| Amser Siwrnai | Cynnydd sylweddol oherwydd mwy o bellter |

Tabl 3: Crynodeb o Effaith

### E.5. Llwybrau Diogel yn y Gymuned

Roedd ystod o welliannau diogelwch a hygyrchedd wedi cael eu gweithredu o amgylch ysgolion yn ardal y Fflint.  Roedd y mesurau hyn yn cynnwys culhau cyffordd, palmant botymog wrth fannau croesi, cyfyngiadau parcio, a gosod croesfannau sebra newydd - un tu allan i Ysgol y Santes Fair ac un arall ar Ffordd Coed Onn tu ôl iddi.

Yn ychwanegol at hynny, roedd y llwybr troed dros Ben Coch wedi'i uwchraddio i gyfleuster a rennir.  Cafodd ei ledu a gosodwyd wyneb newydd i hwyluso cerddwyr, beicwyr a defnyddwyr cymhorthion symudedd.

## F. CASGLIAD

Byddai gweithrediad y cynnig yn effeithio ar drefniadau cludiant. Gydag ysgolion ffydd heb eu sefydlu ymhob cymuned, ac wedi'u lledaenu dros y sir, byddai cau unrhyw ysgol yn effeithio ar unrhyw rai sy'n penderfynu parhau ag addysg Gatholig.

Bydd pellteroedd cerdded ac amseroedd teithio i'w hysgol Gatholig agosaf yn cynyddu, os yw'r cynnig yn cael ei wireddu. O ganlyniad, mae costau cludiant yn debygol o gynyddu hefyd, serch hynny, i ba raddau, nid yw'n hysbys gan y bydd rhai efallai'n dewis mathau eraill o gludiant i fynd i'w hysgol newydd. Canlyniad hyn fyddai cynnydd yn y nifer o gerbydau ar y ffordd, a mwy o effaith ar yr amgylchedd.